**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Sir, Rhuthun dydd Mercher 30 Gorffennaf 2008 am 09.30am.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr I W Armstrong, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, W L Cowie, J A Davies, M Ll Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, I A Gunning, C Hughes, R W Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, M M Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill a C H Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad dros dro, Rheolwr Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cymorth) (G. Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), B. Cook a M Williams (Priffyrdd) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr B Smith, J Bellis, J Davies, P Duffy, N Hughes a C Davies

**190 MATERION BRYS**

Dim

GWEITHDREFN DIANC RHAG TÂN

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am y rheolau Dianc rhag Tân a gofynnodd i'r holl ymwelwyr sicrhau eu bod yn arwyddo yn y dderbynfa a bod Aelodau'n arwyddo'r gofrestr bresenoldeb.

PLEIDLEISIO ELECTRONIG

Cynhaliodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol brawf o'r system bleidleisio electronig ac atgoffodd yr Aelodau os byddan nhw'n dymuno rhoi caniatâd y dylen nhw bleidleisio '+' ac os am wrthod, dylen nhw bleidleisio '-'. I atal, dylen nhw bwyso 0.

**191 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yn gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

*a) Cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y'u gwelwyd yn yr adroddiad a bod caniatâd neu wrthwynebiad fel yr oedd yn digwydd, yn cael eu rhoi yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysiadau Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Gynllunio (Adeiladau Rhestredig a Mannau Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol yn unol ag amodau a restrwyd yn y drefnlen a gyflwynwyd yn awr:-*

**Sesiwn y Bore**

| Rhif y Cais. | Disgrifiad a Safle |
|---|---|
| 43/2007/0972/PF | **Siaradwr dros: J Willcock**<br>Ar ôl ystyried y cywiriad i'r adroddiad, dylai Para 9i gyfeirio at bolisi ENV5 nid EMP5 a llythyrau cyflwyno ychwanegol oddi wrth Dŵr Cymru, Ecolegydd y Sir ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Codi 7 tŷ ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (arwynebedd y safle 0.43ha)<br>**Tir rhwng Car Sales Prestatyn a Pharc Carafannau Deva oddi ar Ffordd Talargorch Prestatyn**<br>**<u>GWRTHOD</u>** |
| 43/2008/0224/PC | **Siaradwr dros: Thomas Simpson**<br>Ar ôl ystyried yr adroddiad o'r ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf a chywiriadau i'r adroddiad.<br>Parhau i ddefnyddio'r adeilad fel gwesty, cadw'r caban coed i'w ddefnyddio fel ystafell olchi a sychu ar gyfer y gwesty.<br>**Plas Ifan 17 Fforddlas, Prestatyn**<br>**<u>CANIATÁU</u>**<br>Yn ddibynnol ar Amodau Ychwanegol/Diwygiedig<br>2. Rheswm: Darparu ar gyfer llwytho, dadlwytho a pharcio cerbydau ar y safle a sicrhau nad oes yn rhaid bacio cerbydau i mewn neu o'r briffordd er mwyn diogelwch y traffig.<br>3. Rhoddir caniatad i ddefnyddio'r caban coed fel ystafell olchi/sychu ar gyfer defnyddio'r prif adeilad fel gwesty heblaw bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi rhoi caniatad ysgrifenedig fel arall.<br>Rheswm: Er mwyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gadw rhywfaint o reolaeth dros y defnydd o'r adeilad yn y dyfodol er mwyn harddwch. |
| 43/2008/0473/PS | **Siaradwr yn Erbyn: Dr P Perrin**<br>**Siaradwr Dros: Susan Hughes**<br>Yn dilyn cyngor ar gyfer eglurhad, adrodd am hyn i'r pwyllgor fel y gofynnwyd yn flaenorol gan yr aelodau.<br>Amrywiad o amod rhif 8 o'r cod caniatáu cynllunio rhif 43/2000/0875/PO yn ymwneud ag atal neu gau Cefn Y Gwrych, drwy gynllun arfaethedig a manylion o gyffordd yr ystâd newydd er mwyn atal mynediad i gerbydau i ac o'r ystâd drwy Gefn Y Gwrych i'r dwyrain<br>**Tir ger Brookdale, Cefn Y Gwrych Prestatyn**<br>**<u>GWRTHOD</u>** |
| 43/2008/0561/PF | Codi lloches un to ar ongl y tu cefn i adeilad<br>**Star Inn 75 Ffordd Talargoch Prestatyn**<br>**<u>CANIATÁU</u>**<br>Yn amodol ar:<br>Amod Ychwanegol<br>3. Cyn defnyddio'r lloches hwn a ganiateir am y tro cyntaf bydd yn rhaid tynnu'r canopi blaen yn gyfan gwbl ac ail osod y waliau a'r llawr yn unol â chynllun i'w gyflwyno i a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br>Rheswm: er budd harddwch gweledol.<br>Nodiadau i'r ymgeisydd: Cynghorir chi i gysylltu â Chydlynydd Cydraddoldebau Corfforaethol y Cyngor ar 01745 888746 i drafod cydymffurfiant posibl y lloches gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. |
| 46/2007/1538/AC | Ar ôl ystyried yr adroddiad am yr ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 25/07/08<br>Cyflwynwyd manylion am fesurau rhybudd am fynedfa yn unol ag amod rhif 4 Caniatad Cynllunio 46/2006/1097/PF<br>**Elwy Bank Y Stryd Fawr Llanelwy**<br>**<u>GWRTHOD</u>**<br>Am resymau Diogelwch Priffyrdd<br>Gwnaed y penderfyniad, oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:<br>Rheswm: |

1. Mae'r mesurau rhybudd am fynedfa arfaethedig yn annigonol i rybuddio holl ddefnyddwyr y ffordd am bresenoldeb y fynedfa i gerbydau. Mae hyn yn groes i Bolisi TRA 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych.

02/2007/1179/PF

Ar ôl ystyried yr adroddiad am yr ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 25/07/08 cafwyd llythyrau gyda sylwadau oddi wrth:
P Edwards, Golygfa, Troed y Rhiw, Cyngor Tref Rhuthun
Codi estyniad deulawr/trillawr i gartref gofal presennol i sicrhau 14 o fflatiau dwy lofft, 3 fflat 1 llofft a mannau cyffredinol cysylltiol. Newidiadau mewnol i'r adeilad presennol a thynnu rhywfaint i lawr. Tynnu'r byngalo unllawr presennol a chodi bloc deulawr o 4 fflat 2 lofft i greu llety ychwanegol. Gwaith cysylltiol ar y sylfeini i greu lle parcio ychwanegol a thirlunio.
**Cartref Gofal Ychwanegol Awelon Ffordd yr Ysgol Rhuthun**
**GOHIRIO** er mwyn gallu ymgynghori ar y cynlluniau diwygiedig.

17/2008/0294/PO

**Siaradwr yn erbyn: Bob Barton**
Ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â phellteroedd aros
Datblygu 0.095ha o dir drwy godi cartref, creu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc septig newydd (cais amlinellol gan gynnwys lleoliad a mynedfa)
**Tir wrth ymyl Bryn Hyfryd Pen Y Stryd, Llandegla, Wrecsam**
**CANIATÁU**

18/2008/0289/PF

**Siaradwr dros: Mr Carrington-Sykes**
Ar ôl ystyried y cywiriad i'r adroddiad am ystyriaethau Priffyrdd a'r llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llandyrnog
Codi 6 chalet, tirlunio a llwybrau mynediad i gerddwyr
**Tir ym Mhentre Mawr, Llandyrnog, Dinbych**
**CANIATÁU (YN ERBYN ARGYMHELLIAD)**
yn ddibynnol ar Adran 106 ac Amodau.
Amodau

1. Rhaid dechrau ar y datblygiad y rhoddir caniatad iddo yma o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatad hwn
   Rheswm: I gydymffurfio ag amodau Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
2. Dylid symud y fframweithiau sy'n cynnal yr unedau llety mewn pebyll ac unrhyw fframweithiau cysylltiol a gwasanaethau o'r safle o fewn 10 mlynedd i ddyddiad dechrau defnyddio'r uned gyntaf ac adfer y tir o fewn tri mis i ddiwedd y caniatad yn unol â'r manylion fydd yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
   Rheswm: Ystyrir mai pethau dros dro yw'r fframweithiau.
3. Dylai'r unedau pebyll gael eu defnyddio fel ystafelloedd gwely atodol ar gyfer gwyliau'n unig gyda gwasanaethau o'r prif adeilad ym Mhentre Mawr ac ni ddylid eu defnyddio o gwbl fel unedau byw annibynnol.
   Rheswm: Rhoddir caniatad cynllunio er mwyn darparu llety i dwristiaid yn unig a byddai defnydd preswyl parhaol yn groes i bolisïau cynllunio.
4. Rhwng 1 Mawrth a 30 Hydref yn unig mewn unrhyw flwyddyn y dylai pobl fyw yn yr unedau pebyll.
   Rheswm: Rhoddir caniatad cynllunio ar gyfer darparu ar gyfer twristiaid yn unig a byddai eu defnyddio ar gyfer preswylio'n barhaol yn groes i bolisïau cynllunio.
5. Ni ddylid defnyddio un o'r unedau pebyll cyn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y trefniadau draeniau budr gan gynnwys asesiad o allu'r

tanc septig presennol i dderbyn y cyfaint o ddŵr o'r unedau; dylai'r trefniant cymeradwy fod wedi'i gwblhau cyn i unrhyw gysylltiad dŵr budr gael ei gwblhau.
Rheswm: I sicrhau system ddraenio budr foddhaol i wasanaethu'r datblygiad.

6. Ni fydd caniatad i ddechrau unrhyw ddatblygiad cyn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i fanylion y mannau goddiweddyd ychwanegol ar y briffordd sy'n arwain i'r datblygiad a bod y rhain wedi'u cwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.
   Rheswm: Er budd diogelwch ar y briffordd.
7. Ni ddylid ddechrau ar unrhyw ddatblygiad cyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn a chymeradwyo'n ysgrifenedig gynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar gyfer y safle a bydd y cynllun hwnnw'n cynnwys manylion:
   (a) Rhaid cadw manylion unrhyw goed, cloddiau a llystyfiant arall ar y tir a mesurau sut i'w diogelu wrth ddatblygu;
   (b) Coed, cloddiau, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig gan gynnwys cadarnhad o rywogaeth, nifer a lleoliad ac amser plannu arfaethedig;
   (c) Deunyddiau arfaethedig i'w defnyddio ar y llwybrau ac arwynebeddau caled eraill;
   (d) Gwaith tir, graddio a phentyrru tir a newidiadau mewn lefelau, cyfuchlinedd terfynol arfaethedig a pherthynas pentyrru arfaethedig i'r llystyfiant presennol a ffurf y tir o gwmpas;
   (e) Lleoliadau, cynlluniau, deunyddiau a'r math o driniaeth i'r ffiniau arfaethedig.
   Rheswm: Er budd harddwch gweledol.
8. Rhaid gwneud yr holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, adeiladu waliau neu unrhyw driniaeth arall sy'n ymwneud â'r manylion tirlunio cymeradwy yn ystod y tymor plannu a hadu cyntaf yn dilyn cwblhau'r datblygiad a bod unrhyw goed neu blanhigion sy'n marw, sy'n cael niwed difrifol neu'n cael haint o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygu'n cael eu symud a bod rhai newydd o'r un maint a rhywogaeth yn cael eu rhoi'n ôl yn ystod y tymor plannu nesaf.
   Rheswm: Er budd harddwch gweledol.
   Nodiadau i'r ymgeisydd - Cynghorir chi i gysylltu â Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Cyngor i drafod yr angen am ganiatâd Rheoliadau Adeiladu ar gyfer unedau llety. Mae'r caniatad yn ddibynnol ar gytundeb cyfreithiol ar wahân yn unol ag Adran 106 y Ddeddf Cynllunio a dylech fod yn ymwybodol o'r angen am gydymffurfio ag amodau'r cytundeb hwn.

20/2008/0379/PR

**Siaradwr yn erbyn: Derek Jones**

Mynegodd y Cynghorydd Bobby Feeley ddiddordeb yn y cais canlynol (ar y Cyngor Cymuned)

Manylion lleoli, cynllunio ac ymddangosiad allanol adeilad, math o fynedfa iddo a thirlunio, cyflwynwyd yn unol ag Amod 1 caniatad amlinellol Rhif Cod 20/2007/0205/PO (Materion a gadwyd yn ôl)

**Tir yn (Rhan o ardd) Tŷ Berllan, Graigfechan, Rhuthun**

**GWRTHOD – Yn erbyn Argymhelliad**

Gwnaed y penderfyniad **YN GROES** i Argymhelliad y Swyddogion am y rhesymau canlynol:

1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw y byddai graddfa, maint, mas a chynllun yr adeilad arfaethedig yn creu datblygiad a fyddai allan o gymeriad gyda'r adeiladau presennol yn yr ardal ac y byddai adeiladu adeilad trillawr yn ormod i'r stryd a

bod y cynnig yn groes i feini prawf i) a ii) Polisi GEN 6 y Cynllun Datblygu Unedol a fabwysiadwyd.

2. Ystyrir y byddai'r cynnig yn esgor ar fath clos a gormesol o ddatblygiad, fyddai'n niweidiol i harddwch trigolion gerllaw, yn groes i feini prawf i), ii) a v) Polisi GEN 6 y Cynllun Datblygu Unedol a fabwysiadwyd.

Nodyn Newydd I'r Ymgeisydd: Cynghorir chi i drafod syniadau amgen ar gyfer manylion yr adeilad i ddelio â'r rhesymau dros wrthod.

21/2008/0359/PF

**Siaradwr yn erbyn – Bob Barton**
Codi adeilad amnewid a gosod cynllun trin preifat
**Tŷ Pren Hendre Foelas, Pant Du Road Eryrys, Yr Wyddgrug**
**<u>CANIATAU</u>**
Yn amodol ar:
Amod Newydd 8

8. Ni fydd unrhyw goeden o fewn y safle'n cael ei thorri, ei thocio na'i thorri i lawr heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: Er budd harddwch gweledol.
Ail rifo hen amod 8 fel 9 ac ail eirio is baragraff a)

a) Pob coeden bresennol, ei math, maint a'i chyflwr a sut mae pob un yn mynd i gael ei chadw a'i diogelu yn ystod ac ar ôl adeiladu'r adeilad a'r gwaith cysylltiol.

Ail rifo hen amod 9 fel 10.
Dileu [cymeradwyaeth yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol]; a'r cromfachau o gwmpas y frawddeg olaf.
Ail rifo hen amod 10 fel 11

12. Heb ystyried y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd manylion y ffenestr dalcen ar gyfer ystafell wely3/ardal chwarae astudio fel y mae'n cael ei dangos ond bydd yn unol â manylion amgen fel y cyflwynwyd a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

13. Ni fydd caniatad i ddechrau unrhyw ddatblygiad cyn cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r trefniadau ar gyfer sicrhau lle i gerbydau nwyddau oddi ar y briffordd yn ystod gwaith dymchwel, clirio'r safle a'r cyfnod adeiladu'r adeilad newydd.

Rheswm: Er budd defnyddwyr y briffordd.

Ar yr adeg hon (12.30pm) gohiriwyd y cyfarfod i gael toriad am hanner awr ar gyfer cinio.

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Rhuthun dydd Mercher 30 Gorffennaf 2008 – ail ddechrau am 1.00pm.

## PRESENNOL

Cynghorwyr I W Armstrong, B Blakeley, J Chamberlain-Jones, W L Cowie, J A Davies, M Ll Davies, P A Dobb, M J Eckersley, G C Evans, R L Feeley, I A Gunning, C Hughes, T R Hughes, E R Jones, H Ll Jones, G M Kensler, L M Morris, P W Owen, D Owens, A G Pennington, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, J Thompson-Hill a C H Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygiad dros dro, Rheolwr Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cymorth) (G. Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams), B. Cook a M Williams (Priffyrdd) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Cynghorwyr B Smith, J Bellis, J Davies, P Duffy, N Hughes a C Davies

**CEISIADAU AM GANIATAD AR GYFER DATBLYGU**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (dosbarthwyd ynghynt) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd a gofyn am benderfyniad gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD**:-*

a) *Cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y gwelwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd yn awr a rhoi caniatad cynllunio neu wrthod yn ôl yr achos, fel sy'n briodol o fewn Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiatawyd) 1995, Deddf Cynllunio a Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth, 1990 I'r datblygiad a gynigiwyd gan y cynlluniau canlynol yn ddibynnol ar yr amodau a restrwyd yn y drefnlen a gyflwynwyd yn awr:-*

**<u>Sesiwn y Prynhawn</u>**

| <u>Rhif y Cais</u>. | <u>Disgrifiad a Safle</u> |
|---|---|
| 42/2008/0327/PS | Ar ôl ystyried yr hanes cynllunio perthnasol nad oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a llythyrau cynrychiolaeth ychwanegol oddi wrth:<br>Dr Fraser Campbell, 23 Parc Gwelfor, Prestatyn<br>Amrywiad o Amod 6 ar ganiatad cynllunio amlinellol Cyfeir-rif 42/2003/1494/PO i adael allan darpariaeth llwybr ar hyd blaen y tirlun dwyreiniol y lleiniau adeiladu.<br>**Tir ger Rhif 19, Rhodfa Gofer Dyserth, Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>**<br>Yn amodol ar Ddileu Amod 1. |
| 42/2008/0585/PF | Ar ôl ystyried yr hanes cynllunio perthnasol nad oedd wedi'i gynnwys.<br>Codi 1 adeilad ar wahân a garej ar wahân ar 0.086ha o dir<br>**Tir y tu cefn i 27-35 (cynwysedig) . Ffordd Llanelwy, Dyserth Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 43/2007/0504/PC | Cadw lwfer UPVC/ gwydr ar flaen yr adeilad<br>**Star Inn, 75 Ffordd Talargoch, Prestatyn**<br>**<u>GOHIRIO</u> (I ganiatáu trafodaethau gyda'r ymgeisydd yn dilyn rhoi caniatad ynghynt ar gyfer lloches yn y cefn)** |
| 43/2008/0635/PF | Gosod 1 ddysgl 0.6m a 2 antena dysgl 1.2m ar dŵr sydd yno'n barod<br>**Gorsaf Drosglwyddo ARQIVA, Gwaenysgor, Y Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 44/2008/0555/PF | Newid defnydd rhan o salon harddwch i fod yn gaffi<br>**Adeilad Skin Deep Fondella, Y Stryd Fawr, Rhuddlan, Y Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 44/2008/0655/PS | Ar ôl ystyried 2 lythyr cynrychiolaeth arall oddi wrth: Cyngor Tref Y Rhyl, Cyngor Tref Rhuddlan.<br>Amrywiad arfaethedig o amod 21 caniatad cynllunio 44/2006/0105/PF yn cyfyngu'r defnydd o unedau mân werthu i werthu nwyddau swmpus nad sy'n fwyd yn unig, i ganiatáu defnydd ar gyfer gwerthu nwyddau nad sy'n fwyd yn unig<br>**(Triongl Rhuddlan) Tir ar Ffordd y Marsh, Rhuddlan Y Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |

45/2006/1406/PF

Mynegodd y Cynghorydd Ian Armstrong ddiddordeb yn y cais canlynol (aelod o'r Cyngor Tref)

Ar ôl ystyried eglurhad o'r adroddiad yn ymwneud ag arwynebedd y llawr.
Trawsnewid a gwneud newidiadau i greu 16 fflat hunangynhaliol a chreu mynedfa newydd i gerbydau
**Gwesty Sandringham 46-47, Rhodfa'r Gorllewin a 50/52 Stryd yr Abaty, Y Rhyl**
**<u>GOHIRIO</u>**
Er mwyn ystyried ymhellach y ddarpariaeth o dai fforddiadwy.

45/2007/0243/PO

Mynegodd y Cynghorydd Ian Armstrong ddiddordeb yn y cais canlynol (aelod o'r Cyngor Tref)
Ar ôl ystyried yr ymweliad â'r safle a gynhaliwyd ar 25/07/08 a llythyrau cynrychiolaeth ychwanegol oddi wrth Asiant yr Ymgeiswyr (yn ymwneud â graddiant a lefelau llawr); a Phennaeth Cludiant a Seilwaith.
Datblygu 0.09 hectar o dir ar gyfer adeiladau preswyl ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr (cais amlinellol yn ceisio cymeradwyaeth I'r math o fynedfa)
**Tir yn 52 Ffordd y Gilgaint oddi ar Rodfa Gordon, Y Rhyl**
**<u>CANIATAU</u>**
Yn ddibynnol ar Amod Ychwanegol:

9. Bydd y fynedfa a'r maes parcio'n cael eu cwblhau er boddhad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn dechrau ar y defnydd a ganiateir yma.

Rheswm: Er budd diogelwch y briffordd.
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd:
Gofynnir i'r ymgeisydd nodi bod yn rhaid i unrhyw gynllun tirlunio dilynol ymgorffori waliau cynnal digonol o gwmpas y safle. Bydd yn rhaid i'r rhain gynnwys yr holl gyfrifiadau strwythurol angenrheidiol i ddangos y gallu i gynnal.

Ar yr adeg hon (13:44) gadawodd y Cynghorwyr Cefyn Williams, Ian Gunning ac A Pennington y cyfarfod.

45/2007/1234/PF

Mynegodd y Cynghorydd Ian Armstrong ddiddordeb yn y cais canlynol (ar y Cyngor Tref)
Ar ôl ystyried 1 llythyr cynrychiolaeth ychwanegol oddi wrth A O'Brien (ar ran Interleisure Y Rhyl; Gwesty'r Morville a Carbaret Showbar Rhodfa'r Dwyrain Y Rhyl)
Codi dau bâr o dai pâr yn lle dau dŷ ar wahân a gymeradwy-wyd ynghynt fel rhan o rif cod ceisiadau 45/2005/0477/PR, a diwygiadau i drefniadau'r fynedfa a'r parcio.
**Cyn Ganolfan Saab Gogledd Cymru, Garej Morville 27-28 Rhodfa'r Dwyrain, Y Rhyl**
**<u>CANIATAU</u>**
Mae'r argymhelliad yn ddibynnol ar gwblhau Cytundeb Adran 106 (neu fersiwn priodol i'r cytundeb presennol) o fewn 12 mis i ddyddiad y Pwyllgor, i sicrhau:-

i) Darparu cyfanswm o 4 uned fforddiadwy ar gyfer y datblygiad cyfan yn unol â pholisïau a chyfarwyddyd y Cyngor
ii) Talu swm o £38,062.08 am y datblygiad cyfan er mwyn gallu darparu man agored ar y safle.

Cyflwynir y Dystysgrif o Benderfyniad wrth gwblhau'r Cytundeb Adran 106 yn unig. Os na lwyddir i gwblhau'r cytundeb o fewn y cyfnod o 12 mis, bydd y cais yn cael ei gyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor i'w

| | |
|---|---|
| | ail ystyried yn erbyn y polisïau a'r cyfarwyddyd sy'n berthnasol ar y pryd hwnnw. |
| 45/2008/0442/PF | Creu llwybr troed/beicio<br>**Tir wrth gefn 50-56 ger 48 Rhodfa Thornley, Y Rhyl**<br>**GOHIRIO i ganiatáu <u>YMWELIAD SAFLE</u>** |
| 47/2008/0272/PF | Newid defnydd o drwsio a gwerthu tractorau a pheiriannau amaethyddol i ddefnydd Dosbarth B1 (Busnes)<br>**Fferm Terfyn Amaethyddol Clwyd, Ffordd Caerwys, Cwm Dyserth Y Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 47/2008/0367/PF | Newid defnydd o annedd Dosbarth C3 i ffurfio tŷ encil Dosbarth C1 (Gwely a Brecwast)<br>**Rowan Marian Cwm Dyserth Y Rhyl**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 01/2008/0228/LB | Mynegodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r roedd yn cael ei ystyried.<br>Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer trwsio ac ail osod giatiau a rheiliau ar flaen yr eiddo<br>**44 Stryd y Dyffryn, Dinbych**<br>**<u>CANIATAU (yn ddibynnol ar gyfeirio at CADW)</u>** |
| 01/2008/0282/PF | Mynegodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra'r oedd yn cael ei ystyried.<br>Trwsio ac ail osod giatiau a rheiliau ar flaen yr eiddo<br>**44 Stryd y Dyffryn, Dinbych**<br>**<u>CANIATAU</u>** |
| 01/2008/0552/PF | Ar ôl ystyried adroddiad ar ymweliad â safle a gynhaliwyd am 12 canol dydd ar 25/07/08 a llythyrau cynrychiolaeth ychwanegol oddi wrth Bennaeth Cludiant a Seilwaith<br>Newid defnydd o storfa Dosbarth B8 a newidiadau mewnol i greu bar bwyd a gwin Dosbarth A3<br>**Canolfan yr Eglwys, Pwll y Grawys, Dinbych**<br>**<u>GWRTHOD</u> (Yn erbyn argymhelliad)**<br>Gwnaed y penderfyniad, sy'n GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rhesymau canlynol:<br><br>1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar y briffordd gan y byddai'n debygol o achosi i fwy o gerbydau a cherddwyr a thagfa gynyddol yn agor i gylchdro prysur a chyffyrdd cysylltiol. Byddai'r trefniadau arfaethedig yn arwain at y posibilrwydd o greu tagfa yn Neuadd Panton a mwy o wrthdaro rhwng cerbydau yn agos i'w gyffordd gyda Phlas Henllan, yn groes i Bolisïau Datblygu Unedol Sir Ddinbych TRA6 a GEN6 (vii).<br>2. Ystyrir y byddai cynnal bar bwyd a diod sylweddol mewn lleoliad sy'n ffinio â chanol y dref yn cael effaith gwael ar hyfywdra a bywiogrwydd busnesau yng nghanol y dref, yn arbennig caffis a bariau llai, yn groes i Bolisi Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych RET7. |
| 02/2006/1423/PO | Ar ôl ystyried y newid i sylw Dŵr Cymru - <u>dim</u> gwrthwynebiad<br>Datblygu 0.32 hectar o dir drwy adeiladu 9 annedd, gan gynnwys manylion y safle (cais amlinellol)<br>**Tir sy'n ffinio â Llys Famau, Rhuthun**<br>**<u>CANIATAU</u>** |

**Yn ddibynnol ar gyfeirio at y Cyngor Llawn fel Gwyriad**

03/2008/0052/LB

Cais Adeilad Rhestredig ar gyfer trwsio ac adnewyddu un adeilad fydd yn golygu dymchwel coetsiws ar wahân a chodi garej ac estyniadau huanell a gwaith allanol cysylltiol
**Y Willows, Stryd yr Helyg, Llangollen**
**CANIATAU Yn ddibynnol ar gyfeirio at CADW**

03/2008/0521/PF

Ar ôl ystyried diwygiadau i'r adroddiad.
Cadw cynhwysydd storio wrth fynedfa Penddol ar gyfer storio cyfarpar arddangos blodau a chadeiriau.
**Pafiliwn Brenhinol Rhyngwladol, Ffordd yr Abaty, Llangollen**
**CANIATAU**
Amod ddiwygiedig:
Amnewid amod 1 gyda:

1. Bydd y cynhwysydd storio'n cael ei symud o'r safle cyn 31 Rhagfyr 2013 fan bellaf

Rheswm: Nid yw lleoliad cynhwysydd storio'n cael ei ystyried fel ateb derbyniol tymor hir mewn lleoliad amlwg wrth ochr prif fynedfa i safle'r Eisteddfod.
**Nodyn i'r ymgeisydd**
Cynghorir chi i gysylltu â'r Gwasanaethau Cynllunio i drafod opsiynau eraill i storio cyfarpar am dymor hir.

05/2007/0509/PF

Codi 9 annedd a chreu mynedfa newydd i gerbydau (arwynebedd y safle 0.4ha)
**Tir gerllaw'r Cilgant, Corwen**
**CANIATAU**
**Yn ddibynnol ar gyfeirio at y Cyngor Llawn fel Gwyriad**

18/2007/1507/PC

Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw adeilad i'w ddefnyddio ar gyfer storio peiriannau a chyfarpar amaethyddol a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau (cynllun diwygiedig)
**Glanywern Isaf, Llandyrnog, Dinbych**
**CANIATAU**
Amod diwygiedig:

2. Bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio peirannau a chyfarpar amaethyddol yn unig ac ni ddylid ei ddefnyddio o gwbl ar gyfer cadw anifeiliaid na thrwsio a phrofi peiriannau na chyfarpar.
3. Dileu "cyn dechrau defnyddio'r adeilad" a rhoi "o fewn 6 mis i ddyddiad y caniatad hwn"

**192 MATERION GORFODAETH**

ENF/2008/001 Tir yn Ffordd Brookdale, Y Rhyl
Dympio gwastraff/deunyddiau heb ganiatad

***PENDERFYNWYD:***

*Rhoi caniatad ar gyfer y canlynol:*

*(i) Rhoi Rhybudd Gorfodaeth i sicrhau symud y rwbel*

*(ii) Dechrau achos o erlyn neu gamau priodol eraill yn unol â'r Ddeddf Cynllunio, yn erbyn unrhyw berson neu bersonau sydd wedi cael unrhyw Rybudd Gorfodaeth neu unrhyw Rybudd arall neu lle mae camau cyfreithiol wedi'u cymryd, os byddan nhw'n methu â chydymffurfio â gofynion y Rhybudd Gorfodaeth.*

**193 AMSER DECHRAU PWYLLGORAU CYNLLUNIO A NEWIDIADAU I'R PROTOCOL**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad yn gofyn i'r aelodau ystyried symud amser dechrau'r Pwyllgor Cynllunio o 9.30am i 10am.

O gymryd pleidlais, ni chymeradwy-wyd y cais hwn. Bydd yr amser dechrau'n aros yn 9.30am.

Daeth y cyfarfod i ben am 3pm.

********